Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Brynsiencyn
Brynsiencyn
Llanfairpwll
Ynys Môn
LL61 6HZ

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Brynsiencyn

Mae Ysgol Gynradd Brynsiencyn rhyw dair milltir o Lanfairpwllgwyngyll ar Ynys Môn. Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol. Mae 53 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys naw yn y dosbarth meithrin. Fe'u rhennir yn ddau ddosbarth oedran cymysg.

Mae tua 25% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na'r canran cenedlaethol. Mae tua 54% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 42% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na'r canran cenedlaethol. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2010 wedi tair blynedd o ofalu dros dro am yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yng ngofal athrawes cyfnod allweddol 2, sydd wedi ei phenodi'n ddirprwy ers mis Medi. Caiff ei chefnogi am ddau ddiwrnod yr wythnos gan bennaeth profiadol.

Fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Ar y cyfan, mae arweinwyr wedi ymateb yn rhy araf i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael effaith ddigon cadarnhaol ar safonau disgyblion. Yn dilyn cefnogaeth sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, mae rheolaeth ac arweinyddiaeth yr ysgol yn dechrau gwella. Fodd bynnag, oherwydd diffyg arweinyddiaeth strategol dros amser, nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael â blaenoriaethau'r cynlluniau datblygu ysgol nac argymhellion arolygiadau blaenorol.

Mae mwyafrif y disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn yn yr ysgol. Fodd bynnag, ar draws yr ystod gallu, nid yw'r disgyblion yn cyflawni cystal ag y gallent yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae'r dirprwy bennaeth, y pennaeth cefnogol a'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol i greu ethos cartrefol a chynhwysol ar gyfer y disgyblion. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gyfeillgar, yn foesgar ac yn gwrtais gyda'i gilydd ac oedolion. Maent yn ymddwyn yn dda tu mewn a thu allan i'r dosbarth.

Mae cwricwlwm yr ysgol wedi ei ailstrwythuro'n ddiweddar ac, ar y cyfan, mae'r cynlluniau'n sicrhau bod yr ysgol yn ymateb yn briodol i'r gofynion statudol. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu diddorol, sy'n cymell disgyblion i fwynhau dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r profiadau dysgu wedi eu sefydlu'n ddigon cadarn eto i sicrhau cynnydd a dilyniant yn natblygiad medrau'r disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** |

## Argymhellion

A1 Cryfhau rôl strategol arweinwyr, gan gynnwys sicrhau bod y corff llywodraethol yn gweithredu'n fwy effeithiol wrth osod cyfeiriad a herio perfformiad yr ysgol

A2 Gwella medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm a'u cyflwyniad gwaith

A3 Gwella medrau y disgyblion i wneud penderfyniadau ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain er mwyn datblygu'n ddysgwyr annibynnol

A4 Sicrhau bod y cynllunio a'r addysgu yn darparu gweithgareddau addas a heriol sy'n ymateb i anghenion pob disgybl

A5 Sicrhau bod gan y disgyblion well dealltwriaeth o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella

A6 Sicrhau defnydd mwy effeithiol o'r ardal allanol yn y cyfnod sylfaen

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau sylfaenol sy'n is na'r disgwyl. Ar y cyfan, mae mwyafrif y disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn yn yr ysgol. Yn gyffredinol, dros y ddau dymor diwethaf, mae cyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion wedi gwella. Fodd bynnag, ar draws yr ystod gallu, nid yw'r disgyblion yn cyflawni cystal ag y gallent yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae diffygion yn y cynllunio, o ran darparu dilyniant yn y dysgu, yn effeithio ar gyflawniad y disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwrando'n astud, a chyda chymorth ac anogaeth, yn trafod eu gwaith yn wybodus. Mae'r disgyblion mwy abl yn rhoi atebion estynedig, er enghraifft wrth drafod prif ddigwyddiadau yn y stori am y bachgen bach sinsir. Maent yn ymateb yn ddeallus i gyfarwyddiadau a chwestiynau gan y staff. Fodd bynnag, byr yw atebion lleiafrif y disgyblion. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyfathrebu'n hyderus yn y ddwy iaith, gan ymuno â thrafodaethau yn frwdfrydig. Maent yn trafod eu gwaith creadigol am y 'Magic Bottle' ac yn egluro'n ystyrlon y rheswm am y dewis. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg o'u gwirfodd tu allan i'r dosbarth.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol ac yn unol â'u gallu. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r disgyblion mwy abl yn darllen yn fwyfwy rhugl ac yn ailadrodd storïau'n hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau darllen Cymraeg a Saesneg rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n briodol. Maent yn ymateb i'r testunau maent yn eu darllen drwy gyfeirio at fanylion arwyddocaol yn y testun ac yn datblygu'n ddarllenwyr annibynnol hyderus. Mae'r disgyblion mwy abl yn darllen â mynegiant a dealltwriaeth dda. Maent yn rhoi sylw teilwng i atalnodi a dyfynodau ac yn mynegi barn ddeallus am y stori yn eu llyfrau.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn gywir. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o eirfa, ac maent yn dechrau defnyddio atalnodi sylfaenol yn eu gwaith yn rheolaidd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu hyfedredd i ddefnyddio geirfa ac iaith amrywiol i ysgrifennu darnau, er enghraifft mewn hunanbortread. Mae'r disgyblion mwy abl yn dechrau ailddrafftio eu gwaith yn briodol.

Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu'n briodol. Maent yn ysgrifennu i wahanol ddibenion yn y Gymraeg a Saesneg, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau ysgrifennu fel storïau a llythyron. Enghraifft dda yw'r llythyron a yrrwyd i gyngor y gymuned ac aelod y Cynulliad am y broblem sbwriel yn yr ardal. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn defnyddio priflythyren, gofynnod ac atalnod llawn yn gyson gywir, gyda'r disgyblion mwy abl yn defnyddio collnod a dyfynodau yn effeithiol pan fo'u hangen.

Nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn cymhwyso eu medrau iaith yn ddigon cyson ac effeithiol i gefnogi eu gwaith mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith yn llesteirio gallu'r disgyblion i ysgrifennu'n annibynnol, yn rhwydd ac estynedig, er bod hyn wedi gwella'n ddiweddar. Nid yw llawysgrifen a chyflwyniad mwyafrif y disgyblion bob amser yn daclus.

Yn y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn adio a thynnu'n gywir gan ddefnyddio degau ac unedau. Maent yn adalw dysgu blaenorol i gof yn dda wrth gofio tabl 2, 5 a 10 i gwblhau gweithgaredd rhannu crempogau gyda'u ffrindiau. Mae llawer yn dangos ymwybyddiaeth dda o werth gwahanol ddarnau arian hyd at bunt wrth brynu nwyddau o'r siop deganau yn y dosbarth. Mae llawer o'r disgyblion mwyaf abl yn hyderus wrth drefnu rhifau at 1000. Mae llawer yn cofnodi a chyflwyno data yn gywir, er enghraifft wrth lunio graff i gofnodi ras fwyaf poblogaidd plant y dosbarth yn y mabolgampau. Mae llawer yn defnyddio cyfesurynnau'n dda i leoli gwahanol nodweddion ar ynys.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau rhif llawer o'r disgyblion yn adeiladu'n bwrpasol ar ddysgu blaenorol, er enghraifft wrth symud ymlaen o ddefnyddio cyfesurynnau i ddefnyddio cyfeirnod grid. Mae gan fwyafrif y disgyblion ddealltwriaeth dda o strategaethau cyfrifo pen ac maent yn eu defnyddio i ddatrys problemau rhif wrth ddefnyddio'r pedair rheol. Enghraifft o hyn yw'r gwaith datrys problemau geiriol ar awyrennau sy'n teithio i wahanol wledydd a'r gwaith ymresymu ar brynu tocynnau i gyngerdd Y Beatles. Mae dealltwriaeth briodol gan lawer ohonynt o'r berthynas rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau amser yn effeithiol wrth ddefnyddio amserlen i drefnu diwrnod o weithgareddau yn y sw.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r disgyblion yn datblygu nifer gyfyngedig o fedrau TGCh yn foddhaol. Mae'r mwyafrif yn gallu defnyddio eu medrau modelu yn berthnasol wrth reoli robot syml i gasglu teganau Sïon Corn. Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau cyfathrebu'n briodol i ysgrifennu cerddi am ddail yr hydref ar raglen prosesu geiriau. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio TGCh yn effeithiol i ymchwilio ar y we a chyflwyno eu gwaith wrth ddefnyddio testun a lluniau i greu posteri am Iddewiaeth. Maent yn datblygu eu gallu i ddefnyddio taenlen yn effeithiol i greu gwahanol raffiau o hoff dimau pêl-droed eu ffrindiau yn y dosbarth.

Nid yw'r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu ystod ddigon eang o fedrau rhifedd a TGCh ac yn eu defnyddio'n annibynnol i gefnogi eu dysgu yn y gwahanol bynciau.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwella

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gyfeillgar, yn foesgar ac yn gwrtais gyda'i gilydd ac oedolion. Mae llawer yn cydweithio'n llwyddiannus â'i gilydd ac mae'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi ac amser chwarae. Maent yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt unrhyw broblemau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth ddigon cadarn o faterion e-ddiogelwch. Mae llawer o'r disgyblion yn mwynhau ac yn ymfalchïo yn eu gwaith gan ddyfalbarhau ar eu tasgau am gyfnodau estynedig. Fodd bynnag, nid yw medrau'r disgyblion i weithio'n annibynnol a bod yn gyfrifol am eu dysgu eu hunain wedi datblygu'n ddigonol. Lleiafrif sydd â dealltwriaeth gadarn o ba mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta ac yfed iach ac yn deall ei bod hi'n bwysig cadw'n heini. Mae digon o gyfleoedd iddynt wneud hynny. Enghraifft dda yw'r gweithgareddau a drefnir gan y llysgenhadon chwaraeon. Maent yn cymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol ac yn cynnig syniadau ymarferol sy'n dylanwadu'n dda ar nifer y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Mae'r cyngor ysgol yn frwdfrydig ac wedi cynorthwyo yn y broses o ennill gwobr arian y siarter iaith; er hynny, nid ydynt yn cael llawer o ddylanwad ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Dechrau datblygu mae gwybodaeth y disgyblion am faterion cynaliadwyedd a hawliau plant.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Yn dilyn cefnogaeth gan y consortiwm rhanbarthol, mae cwricwlwm yr ysgol wedi ei ailstrwythuro'n ddiweddar, ac ar y cyfan, mae'r cynlluniau'n sicrhau bod yr ysgol yn ymateb yn briodol i'r gofynion statudol.

Mae cynlluniau'r cyfnod sylfaen wedi gwella ac yn parhau i ddatblygu. Fe roddir sylw da i'r profiadau a ddarperir mewn tasgau ffocws ble mae cyfleoedd addas i ddisgyblion weithio'n annibynnol a chreadigol. Mae cynllunio yng nghyfnod allweddol 2 yn darparu gweithgareddau dysgu diddorol, sy'n cymell disgyblion i fwynhau dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar draws yr ysgol yn sicrhau gweithgareddau addas ar gyfer yr ystod gallu er mwyn ymateb i anghenion pob disgybl. Nid yw'r ddarpariaeth yn ardal allanol yn y cyfnod sylfaen wedi ei datblygu'n llawn.

Mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion bellach yn addas. Fodd bynnag, nid yw'r profiadau dysgu wedi eu sefydlu'n ddigon cadarn er mwyn sicrhau cynnydd a dilyniant yn natblygiad medrau'r disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn ddigon effeithiol, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn dda. Caiff y disgyblion gyfleoedd i astudio gwaith nifer o artistiaid ac awduron o Gymru, gan gynnwys gwaith T Llew Jones, Kyffin Williams a Wilf Roberts. Maent yn dysgu am hanes enwogion Cymreig fel Dewi Sant ac yn ymweld ag ardaloedd lleol yn achlysurol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau er mwyn sicrhau bod gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gyffredinol briodol o faterion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwyedd, er enghraifft drwy waith ei themâu 'Gwyrdd ein Byd' ac wrth annog ailgylchu yn ddyddiol yn yr ysgol. Mae codi arian at elusennau fel Plant mewn Angen a chymryd rhan mewn gweithgareddau Diwrnod Trwynau Coch yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion yn effeithiol o amodau byw anodd mewn rhannau eraill o'r byd.

Mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol ac angen gwella. Mae'r staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod cydberthynas weithgar yn bodoli. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ethos gofalgar sy'n bodoli ym mhob dosbarth sy'n meithrin awyrgylch ble mae disgyblion a staff yn parchu ei gilydd. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'r cymorthyddion ar lawr y dosbarth. Mae pob aelod o staff yn fodelau iaith gadarn sy'n gymorth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw

staff yn annog y disgyblion i ddefnyddio’r Gymraeg mewn amgylchiadau anffurfiol yn ddigon cyson. Mae’r athrawon yn atgoffa’r disgyblion o’u dysgu blaenorol ac yn cynnig cyfleoedd pwrpasol iddynt weithio mewn parau ac mewn grwpiau bychain. Er hynny, mae tueddiad ar adegau i athrawon or-arwain y disgyblion ac mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Mae athrawon a staff cymorth yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion ac yn eu holi’n effeithiol i archwilio’u dealltwriaeth. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu. Mae athrawon yn rhoi sylwadau ar waith disgyblion sy’n eu galluogi i ddeall pa mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn defnyddio’r adborth ysgrifenedig fel mater o drefn i wella’u gwaith yn effeithiol. At ei gilydd, nid yw athrawon yn cynnwys disgyblion yn ddigonol er mwyn iddynt allu asesu cynnydd eu hunain neu gynnydd disgyblion eraill.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella**

Mae gan athrawon unigol systemau addas ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn eu dosbarth. Maent yn dechrau defnyddio’r wybodaeth hon, a chanlyniadau profion, yn briodol, er enghraifft wrth adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol mewn llythrennedd neu rifedd gan drefnu sesiynau ymyrraeth yn ôl yr angen. Mae ansawdd yr ymyraethau yn effeithiol ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun dysgu priodol. Fodd bynnag, anghyson yw’r drefn ar gyfer monitro cynnydd disgyblion ar draws yr ysgol ac nid oes system effeithiol ar waith. Oherwydd hyn, nid yw disgyblion yn gwneud y cynnydd mwyaf effeithiol yn eu dysgu.

Mae gan yr ysgol strategaethau amlwg sydd yn llwyddo i gefnogi anghenion personol, emosiynol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol. Mae’r rhain yn cyfrannu’n dda at yr ethos gofalgar a theuluol sy’n bodoli yn yr ysgol. Mae’r ysgol yn helpu rhieni i gefnogi eu plant yn briodol drwy rannu targedau gwelliant yn ystod nosweithiau rhieni. Trwy ddarparu sesiynau buddiol, mae’r ysgol yn llwyddo i sicrhau bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda fod eu ffordd o fyw yn dylanwadu ar eu hiechyd a’u ffitrwydd.

Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau ar amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau cadarn o ddiwylliant yr ysgol. Mae pwyslais amlwg ar ofalu am ei gilydd, ac mae hyn yn cael dylanwad positif ar ymddygiad disgyblion. Mae’r athrawon yn cynllunio ystod briodol o weithgareddau er mwyn datblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad addas o hanes, diwylliant a thraddodiadau Cymru ymysg y disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw’r gwaith ar Hedd Wyn.

Mae’r ychydig o brofiadau allgyrsiol, fel ymweld â Fferm y Foel a Sw Fôr leol, yn rhoi profiadau buddiol i ddisgyblion wella eu hymwybyddiaeth o’u hardal leol. Fodd bynnag, cyfyng yw’r cyfleoedd i ddisgyblion gyfoethogi eu profiadau drwy ymweliadau tebyg.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Anfoddhaol ac angen gwella ar frys

Ar y cyfan, mae arweinwyr wedi ymateb yn rhy araf i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael effaith ddigon cadarnhaol ar safonau disgyblion. Yn dilyn cefnogaeth ac arweiniad sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, mae rheolaeth ac arweinyddiaeth yr ysgol yn dechrau gwella. Mae'r dirprwy bennaeth, y pennaeth cefnogol a'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol i greu ethos cartrefol a chynhwysol ar gyfer y disgyblion. Maent yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n gydwybodol ac yn cefnogi ei gilydd yn dda. Yn dilyn cyfnod anodd yn hanes ysgol, mae'r dirprwy bennaeth wedi ennill hyder y rhieni ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'r pennaeth cefnogol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes sicrwydd ynglŷn â sefydlogrwydd arweinyddiaeth yr ysgol dros y tymor hir.

Mae diffygion amlwg yn y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion; yn yr un modd, nid yw'r arweinyddiaeth wedi sicrhau bod y ddarpariaeth yn ymestyn yn llawn ddisgyblion o bob gallu a sicrhau bod pob disgyblion yn cyflawni gorau y gallant. Er hynny, mae nifer o strategaethau diweddar bellach ar waith, fel datblygu'r ddarpariaeth yn y cyfnod sylfaen, datblygu strategaethau llythrennedd, rhifedd, TGCh ac asesu ar gyfer dysgu. Fodd bynnag, nid ydynt hyd yma wedi cael effaith lawn ar agweddau pwysig ar waith yr ysgol sydd angen eu gwella.

Erbyn hyn, dan arweiniad y pennaeth cefnogol a staff y consortiwm rhanbarthol, mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanarfarnu priodol sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth ddibynadwy o'r addysgu, y dysgu a'r ddarpariaeth. Mae staff yr ysgol wedi mynd ati i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Maent wedi seilio eu canfyddiadau ar dystiolaeth gadarn, ac maent yn ymwybodol o'r hyn y mae'n rhaid ei wneud i godi safonau. Mewn amser byr, maent wedi llwyddo i lunio arfarniad cywir o sefyllfa bresennol yr ysgol, yn ogystal â phennu targedau cyraeddadwy ar gyfer gwella. Mae'r adroddiad hunanarfarnu cyfredol yn ddogfen fanwl sy'n gwneud defnydd priodol o ddadansoddiadau data ac arfarniadau o safonau gwaith. Erbyn hyn, mae'r meysydd i'w datblygu yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r cynllun datblygu'r ysgol. Fodd bynnag, oherwydd diffyg arweinyddiaeth strategol gan arweinwyr yr ysgol, nid ydynt wedi mynd i'r afael â blaenoriaethau'r cynlluniau datblygu ysgol nac argymhellion arolygiadau blaenorol yn ddigon da. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol ac yn dechrau datblygu eu rolau a deall eu cyfrifoldebau. Yn ddiweddar iawn, maent wedi cychwyn ymweld â'r ysgol i graffu ar lyfrau a gweld safonau gwaith disgyblion. Fodd bynnag, maent yn orddibynnol ar ymroddiad ychydig iawn o aelodau. Nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon da o berfformiad yr ysgol er mwyn gweithredu'n ddigon effeithiol fel cyfeillion beirniadol. Nid ydynt wedi chwarae rhan yn y broses o lunio'r adroddiad hunanarfarnu na gosod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Nid ydynt ychwaith wedi dwyn yr ysgol i gyfrif am y safonau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth

Mae'r staff addysgu wedi manteisio ar raglen hyfforddiant gynhwysfawr yn ddiweddar i gyd-fynd â blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Mae hyn wedi arwain at well cysondeb yn ansawdd y dysgu a'r addysgu. Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol ag ysgolion eraill; trwy hyn, mae cyfleoedd gwerthfawr i aelodau'r staff rannu profiadau ac arfer dda i wella'r ddarpariaeth. Mae gwaith diweddar i gynllunio ar gyfer y medrau yn rhoi gwell arweiniad i athrawon ar sut i'w datblygu mewn meysydd dysgu gwahanol.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn cadw golwg priodol ar y sefyllfa gyllidol ac mae gwariant yn cysylltu’n bwrpasol â thargedau a chynlluniau’r ysgol. Maent yn gwneud defnydd synhwyrol o’r grant datblygu disgyblion ar gyfer targedu disgyblion anghenus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/02/2018